Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Gwybodaeth i Ymgeiswyr**

# COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

## Penodi Comisiynydd

**Dyddiad cau: 09 Ionawr 2026 16:00**

The Commissioner for Public Appointments

**Cynnwys**

**Gwneud cais ..... 3**

**Atodiad A: Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person ar gyfer Aelod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru ..... 6**

**Atodiad B: Rôl a swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.. 11**

**Atodiad C: Y broses ddethol ..... 13**

## Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb yn y penodiad i fod yn Gomisiynydd i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Mae hwn yn gyfnod hynod gyffrous i ymuno â'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Yn ogystal â'i ddiben craidd o fonitro'r ffiniau ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, mae'r Comisiwn wedi ymgymryd â chyfrifoldebau newydd gan gynnwys adolygu ffiniau etholaethol y Senedd, cynnal y Bwrdd Rheoli Etholiadol, a goruchwylio tâl cynghorwyr. Gyda'r cyfrifoldebau newydd hyn, a'r angen i sefydlu etholaethau hollol newydd ar gyfer y Senedd, y bydd ymgeiswyr yn sefyll ynddynt yn etholiad 2030, mae'r Comisiwn ar flaen y gad o ran llunio tirwedd ddemocrataidd Cymru. Bydd y Comisiynwyr yn chwarae rôl bwysig wrth lywio'r mentrau hyn gydag awdurdod ac uniondeb.

### Ffeithiau allweddol am y swydd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Caerdydd neu'n rhithwir drwy MS Teams. |
| Ymrwymiad amser: | O leiaf 1-2 ddiwrnod y mis. |
| Hyd y penodiad: | Penodiad o 4 blynedd i ddechrau. |
| Tâl: | £292 am ddiwrnod llawn. |
| Dyddiad dechrau arfaethedig: | 1 x Chwefror 2026<br>2 x Mai 2026 |

Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl aelod y Comisiwn a manyleb y person, ynghyd â rôl a chyfrifoldebau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru a'r broses ddethol.

Gall y canllawiau canlynol fod o gymorth i chi wrth ystyried eich cais: Penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru: canllawiau ymgeiswyr | LLYW.CYMRU

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: Penodiadau Cyhoeddus.

I wneud cais am y rôl hon, dewiswch y swydd wag ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system geisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill y byddwch yn eu cyflwyno, drwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros wneud cais' ar y ffurflen gais ar-lein.

### Datganiad Personol

Y datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi fydd yn penderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd

bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio pa ran y gwnaethoch chi ei chwarae wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd o fudd i'r panel dethol hefyd os gallwch ddangos yn glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer cyffredin.

Dylech gyfyngu eich datganiad personol i ddwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

**CV**

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu'ch swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol blaenorol neu bresennol.

**Geirdaon**

Rhowch enwau dau ganolwr (cyflogwr a phersonol). Byddwn yn cysylltu â nhw os byddwch yn llwyddiannus.

**Amserlen fras**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 9 Ionawr 2026 |
| Llunio rhestr fer: | yr wythnos yn dechrau 19 Ionawr 2026 |
| Cyfweliadau: | yr wythnos yn dechrau 23 Chwefror 2026 |

**Datganiad am Amrywiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cael cyrff cyhoeddus sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiwylliannau, hunaniaethau a chefndiroedd. Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o gymdeithas ac rydym am benodi o'r gronfa dalent ehangaf a mwyaf amrywiol.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb heb ystyried oedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas rhwng pobl o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, amhariad neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd.

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl ac aelodau o'r gymuned LHDTC+, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi ar fyrddau cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd.

**Hyderus o ran Anabledd**

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo

i ddileu rhwystrau fel y gall pawb berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'n gyffredinol y lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a nodir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi pobl anabl a datblygu eu gyrfaoedd. Os hoffech gael cyfweliad wedi'i warantu, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac ateb eich cwestiynau.

**Manylion Cyswllt:**

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â Thîm Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael gwybodaeth am Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, efallai yr hoffech edrych ar wefan y Comisiwn neu gysylltu â'r Prif Weithredwr, Shereen Williams: 02921 052501 shereen.williams@cdffc.llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth yn gyffredinol am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

# Atodiad A: Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person ar gyfer Aelod o Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru

## Disgrifiad o'r Rôl

Mae'n bwysig nodi y bydd comisiynwyr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn gweithio ar draws yr ystod lawn o swyddogaethau'r corff, ond y bydd gan bob un ffocws penodol ar faes swyddogaethol penodol.

## Swyddogaethau Strategol

Bydd yr Aelodau yn:

- Goruchwylio'r gwaith o gynnal Adolygiadau o Ffiniau Etholiadol Llywodraeth Leol, gydag un Aelod yn Gomisiynydd Arweiniol ar gyfer pob adolygiad.
- Goruchwylio'r gwaith o gynnal Adolygiadau o Ffiniau'r Senedd.
- Penderfynu ar lefel y taliadau i aelodau etholedig a chyfetholedig Cynghorau Unedol, Cynghorau Tref a Chymuned, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

## Presenoldeb a chyfranogiad y Bwrdd

- Cadeirio a/neu gymryd rhan mewn is-bwyllgorau sy'n cyfrannu at gyflawni rhaglenni gwaith drwy'r is-bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio (Dirprwy Gadeirydd CDFfC a dau Gomisiynydd), Taliadau (o leiaf bedwar Comisiynydd) neu Adolygu Etholiadol (o leiaf bedwar Comisiynydd).

## Rheoli Rhanddeiliaid

- Sicrhau perthynas gref ac effeithiol â rhanddeiliaid allweddol.
- Rolau Comisiynwyr Arweiniol – Cymryd cyfrifoldeb am ymgysylltu a chyfathrebu ag arweinwyr cynghorau, swyddogion, a rhanddeiliaid allweddol eraill ar draws llywodraeth leol.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

- Sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol yn digwydd ar gynigion, yn unol â strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Comisiwn, a bod adborth yn cael ei ddefnyddio i helpu i ddysgu a gwella'n barhaus.
- Sicrhau bod ymgynghori'n cydymffurfio'n llawn â'r fframwaith deddfwriaethol statudol ac yn cael ei ddefnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer pob adolygiad etholiadol a phenderfyniadau ar daliadau.
- Sicrhau bod penderfyniadau'r Comisiwn yn cael eu cyfleu'n glir a bod yr holl gyfathrebu'n hygyrch.

**Dadansoddi gwybodaeth / defnyddio ymchwil a thystiolaeth i helpu i wneud penderfyniadau effeithiol**

- Dadansoddi a dehongli gwybodaeth a gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau'r panel ar opsiynau Adolygu Ffiniau Etholiadol Llywodraeth Leol a'r Senedd, a thaliadau.
- Nodi tueddiadau ar draws pob agwedd ar raglenni'r Comisiwn i lywio cynllun ymchwil a thystiolaeth sy'n sicrhau bod y Comisiwn yn cyfrannu at iechyd democrataidd y genedl.
- Defnyddio tystiolaeth ac ymchwil wrth ddarparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar gyflwr iechyd democrataidd yng Nghymru.

**Datblygu polisi**

- Datblygu polisi, ymarfer a methodoleg gadarn i helpu i wneud penderfyniadau.
- Darparu cyfarwyddyd a chyngor i'r prif rhanddeiliaid ar weithredu etholiadau datganoledig yng Nghymru yn effeithiol, polisi a phenderfyniadau ar daliadau, ac adolygiadau etholiadol.
- Drwy ddysgu ar y cyd, datblygu a gweithredu cyfarwyddyd ar gyfer cyflawni etholiadau yn effeithiol ledled Cymru.

**Fframwaith Deddfwriaethol**

- Deall y fframwaith deddfwriaethol sy'n effeithio ar benderfyniadau a gwaith y Comisiwn.
- Sicrhau bod y Comisiwn yn gweithio o fewn y fframwaith deddfwriaethol.
- Cadw llygad am newidiadau i ddeddfwriaeth yn y dyfodol sy'n debygol o effeithio ar swyddogaethau'r Comisiwn.

**Llywodraethiant Corfforaethol**

- Sicrhau bod yr sefydliad yn addas i'r diben, gyda threfniadau llywodraethiant corfforaethol effeithiol o ran rheolaeth ariannol a risg a datblygiad sefydliadol.
- Sicrhau bod cynlluniau a pholisïau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol i'r sefydliad a chynorthwyo'r Prif Weithredwr a'r tîm arweinyddiaeth uwch i gyflawni nodau corfforaethol a gyrru diwylliant o welliant parhaus.
- Sicrhau bod canlyniadau yn cael eu cyflawni yn erbyn strategaeth a chynllun sefydliadol y Comisiwn, bod nodau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni a bod Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog yn cael ei gyflawni.

**Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd**

- Goruchwylio'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer cynhyrchu adroddiadau drafft a therfynol.

- Sicrhau bod perfformiad y Comisiwn yn cael ei fonitro'n effeithiol.

**Manyleb y Person - Am bwy rydym yn chwilio**

Mae'r sgiliau a'r profiadau rydym yn chwilio amdanynt wedi'u nodi isod. Wrth gyflwyno eich datganiad personol dylech ddangos sut y gellid defnyddio eich sgiliau a'ch profiadau yn y rôl hon.

**Manyleb hanfodol**

Mae angen i'r ymgeiswyr allu dangos:-

| | |
|---|---|
| **Cyd-destun Cymreig** | • Dealltwriaeth o sut y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru a phwysigrwydd iechyd democrataidd. |
| **Cyfathrebu** | • Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ag amrywiaeth o unigolion, o aelodau'r cyhoedd i gynrychiolwyr etholedig ac uwch-arweinwyr.<br>• Y gallu i arfer barn annibynnol – gwneud penderfyniadau ac esbonio sut y maent wedi cael eu gwneud. |
| **Sgiliau dadansoddi a dehongli** | • Y gallu i werthuso ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys data daearyddol a dod i gasgliad rhesymegol.<br>• Y gallu i asesu opsiynau a nodi a llunio atebion gan ddefnyddio dull trefnus a dadansoddol. |
| **Fframwaith deddfwriaethol** | • Dealltwriaeth o'r fframwaith deddfwriaethol y mae'r Comisiwn yn gweithredu o'i fewn i sicrhau y caiff penderfyniadau cadarn ac effeithiol eu gwneud. |
| **Didueddrwydd** | • Y gallu i aros yn ddiduedd ac yn wrthrychol wrth gynnig cyngor a sylwadau adeiladol.<br>• Hanes blaenorol cryf o gyflawni canlyniadau gyda'r gallu i adlewyrchu ar brofiadau o'u bywyd eu hunain a dysgu ohonynt. |
| **Amhleidioldeb gwleidyddol** | • Y gallu i weithio ar sail amhleidioldeb gwleidyddol llym.<br>• Dealltwriaeth o egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan ac ymrwymiad iddynt. |
| **Llywodraethiant corfforaethol** | • Dealltwriaeth o bwysigrwydd llywodraethiant corfforaethol ac ariannol effeithiol.<br>• Gwybodaeth, sgiliau neu brofiad mewn rheolaeth ariannol, cyfrifyddu, rheoli risg, strwythurau archwilio ac atebolrwydd. |
| **Ymchwil** | • Profiad o weithio gyda data ystadegol, ac arwain ar gomisiynu a dadansoddi ymchwil. |

**Manyleb ddymunol**

| | |
|---|---|
| **Etholiadau** | • Profiad o gydgysylltu neu gynnal etholiadau llywodraeth leol, etholiadau seneddol neu etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throseddu. |

**Tâl**

- Profiad o dâl aelodau etholedig.

**Y Gymraeg**

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn **hanfodol** ar gyfer un o'r swyddi ac yn **ddymunol**, ond nid yn ofynnol, ar gyfer penodi i'r ddwy arall. Er hynny, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith.

Deall - Yn gallu deall sgyrsiau sylfaenol am bynciau pob dydd
Darllen - Yn gallu darllen a deall deunydd syml am bynciau pob dydd
Siarad - Yn gallu cynnal sgyrsiau syml yn ymwneud â'r gwaith
Ysgrifennu - Yn gallu ysgrifennu gohebiaeth syml yn ymwneud â'r gwaith

**Ffeithiau allweddol am y swydd**

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Caerdydd neu'n rhithwir drwy MS Teams. |
| Ymrwymiad Amser: | O leiaf 1-2 ddiwrnod y mis |
| Hyd y penodiad: | Penodiad cychwynnol o 4 blynedd. |
| Tâl: | cyfradd o £292 am ddiwrnod llawn. |
| Dyddiad dechrau arfaethedig: | **1 x Chwefror 2026**<br>**2 x Mai 2026** |

**Pwy sy'n gymwys**

Mae unrhyw unigolyn sy'n dal un neu ragor o'r swyddi isod yn anghymwys i ymgymryd â'r rôl hon, gan eu bod yn cael eu rhwystro rhag bod yn aelod o'r CDFfC gan adran 4(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013:

- aelod o gorff deddfwriaethol yn y DU, neu'n gweithio i aelod o gorff deddfwriaethol yn y DU;
- person sy'n gweithio i blaid wleidyddol gofrestredig;
- aelod neu swyddog o awdurdod lleol;
- aelod neu swyddog o Gyd-bwyllgor Corfforedig;
- cynghorydd arbennig;
- aelod neu gyflogai awdurdod parc cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
- aelod neu gyflogai awdurdod tân ac achub;
- comisiynydd heddlu a throseddu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru; neu
- aelod o staff y CDFfC.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod bod yn aelod o Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn eu hanghymhwyso rhag bod yn aelod o Senedd Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Gwrthdaro Buddiannau**

Gofynnir ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai wrthdaro, neu y gellid dehongli eu bod yn gwrthdaro, â'r rôl a'r cyfrifoldebau fel Aelod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yng Nghomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Trafodir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd gofyn ichi hefyd ddatgan y buddiannau hynny ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

**Diwydrwydd Dyladwy**

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddewis i gyfweliad. Bydd y gwiriadau hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am unrhyw ganfyddiadau yn sgil gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

**Safonau mewn bywyd cyhoeddus**

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd yn ofynnol i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Mae'r ddogfen honno i'w gweld yma:

Cod ymddygiad ar gyfer aelodau byrddau cyrff cyhoeddus

## Atodiad B: Rôl a swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru yn gorff annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae ei ddyletswyddau statudol wedi'u nodi yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru 2013.

Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod ffiniau'r Senedd yn addas i'r diben, gan gynnwys yr adolygiad rheolaidd o drefniadau etholiadol.
- Sicrhau bod trefniadau etholiadol prif ardaloedd yn addas i'r diben – datblygu a chyflwyno rhaglen dreigl 12 mlynedd o adolygiadau etholiadol.
- Gwneud Gorchmynion mewn perthynas â chynigion gan brif gynghorau ar gyfer newidiadau i ardaloedd cymunedol yn dilyn eu hadolygiadau o ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol.
- Fel y bo'n briodol, sicrhau bod ffiniau ardaloedd y prif gynghorau yn addas i'r diben.
- Cynnal y Bwrdd Rheoli Etholiadol ar gyfer etholiadau datganoledig.
- Bod yn gyfrifol am benderfynu ar y fframwaith taliadau ar gyfer aelodau'r prif gynghorau, cynghorwyr tref a chymuned, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a chyd-bwyllgorau corfforedig ledled Cymru.
- Cynnal lefel uchel o lywodraethiant corfforaethol i'r Comisiwn.

Yn ogystal â'i ddyletswyddau statudol, gall y Comisiwn gynnal adolygiadau neu ddarparu cyngor a gwybodaeth ar gais yr awdurdodau lleol neu fel y cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

O ran trefniadau prif ardaloedd, mae'r Comisiwn yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, sydd yn ei farn ef er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Caiff Gweinidogion Cymru benodi hyd at naw aelod i'r Comisiwn, sy'n cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at saith aelod arall. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd yw tri.

Darperir ysgrifenyddiaeth y Comisiwn gan brif weithredwr ac 14 o aelodau staff. Mae'r strwythur staffio yn newid yn unol â rhaglenni gwaith y Comisiwn.

Disgwylir i aelodau fod ar gael i weithio o leiaf 1-2 ddiwrnod y mis i fynychu cyfarfodydd y Comisiwn a hefyd i fynychu cyfarfodydd eraill fel y bo angen.

Mae cyfanswm nifer y diwrnodau sydd eu hangen yn amrywio yn dibynnu ar raglen waith y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd hybrid a gall aelodau ddewis dod iddynt yn bersonol yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd neu ymuno’n rhithwir drwy MS Teams. Mae pob Comisiynydd yn cael offer TGCh a chymorth i'w alluogi i fynychu cyfarfodydd. Oherwydd natur gwaith y Comisiwn, mae'n bosibl y bydd angen cyfarfodydd wyneb yn wyneb ledled Cymru ar adegau.

Bydd swydd aelod yn cael ei thalu ar gyfradd o £292 am ddiwrnod llawn.

Mae aelod o'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cael ei ystyried yn ddeiliaid swydd at ddibenion treth ac yswiriant gwladol ac fe'i telir drwy gyflogres y Comisiwn.

Gellir hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill sy'n codi wrth wneud gwaith ar ran y Comisiwn, yn unol â chyfraddau a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bosibl hefyd y byddwch yn gymwys i hawlio ad-daliadau am gostau sy'n gysylltiedig â gofal plant/gofal yr henoed/gofalwr cynorthwyol, wrth wneud gwaith ar ran y Comisiwn.

Gwneir pob ymdrech i gynnig pa bynnag gymorth rhesymol y mae ar yr aelodau ei angen i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau.

Bydd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn darparu sesiynau sefydlu ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus.

## Atodiad C: Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni orau y meini prawf ar gyfer y rôl, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Michael Kay, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Etholiadau, Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys Karen Jones, Cadeirydd newydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a Paula Walters, CLILC, fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, mae'n bosibl y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei drosglwyddo i'w ystyried gan y panel sy'n llunio'r rhestr fer. Mewn sefyllfa o'r fath, dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Ionawr pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Chwefror. Mae'n debygol y bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal drwy MS Teams.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf ym marn y panel sydd wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad **a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweliad. Os nad yw'r dyddiad a drefnir yn gyfleus ichi, byddwn yn ceisio ei aildrefnu, ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi, neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Byddwch yn cael e-bost oddi wrth ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni meini prawf** y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd cyfnod o amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad terfynol ar benodi. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Aelod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y cynigir y penodiad ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, cewch wybod drwy ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru. Rydym yn sylweddoli bod ymgeisio am rôl yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech, a bod rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn nodi â phwy y gallwch gysylltu i gael adborth ar eich cais a'ch cyfweliad, os dymunwch wneud hynny.

**Ymholiadau**

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

**Os na fyddwch yn hollol fodlon**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau cyn gynted â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os bydd gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, anfonwch e-bost i penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Neu gallwch ysgrifennu at: Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus: Office of the Commissioner for Public Appointments, Ground Floor, 1 Horse Guards Road, London, SW1A 2HQ, neu e-bostio publicappointments@csc.gov.uk.